

CYNGOR CYMUNED LLANLLECHID LLANLLECHID COMMUNITY COUNCIL

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
Clerk and Chief Financial Officer

Donna Watts

01248 602131

CyngorLlanllechid@ogwen.org

26 Stryd Fawr

Bethesda

Gwynedd

LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd dros Zoom ar nos Iau 13 Mai 2021 am 19.00

1. PRESENNOL:

Ward Llanllechid Isaf

Y Cynghorydd Geraint Hughes

Y Cynghorydd Margaret Fernley

Y Cynghorydd Megan Tomos

Y Cynghorydd Lowri Evans

Y Cynghorydd Evan Jones

Ward Llanllechid Uchaf

Y Cynghorydd Dafydd K Jones

Y Cynghorydd Kevin Williams

Y Cynghorydd Jên Morris

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Cyng. Jên Morris.

2. Ymddiheuriadau gan y Cyng. Wyn Bowen Harris ac Alun Thomas.

3. Cofnodion

Penderfynwyd derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Ebrill, 2021.

4. Materion yn codi o'r cofnodion

Llwybr cyhoeddus yn Tan y Garth – Cynhaliwyd cyfarfod ar y safle gyda'r Swyddog Llwybrau, a cadarnhawyd y bydd y gwaith yn gael ei gwblhau yn ystod yr haf.

Tai'n Lon – mae'r gwaith yn parhau.

Terfynau wal mynydd ochrau Dol Awen a Thy'n y Maes – Y Clerc wedi cysylltu hefo Geraint Williams, Partneriaeth Tirwedd y Carneddau yn dilyn cadarnhad gan y Cyng. Megan Tomos. Dim diweddariad hyd yn hyn.

Paragleidio ar Moel Wnion – Y Cyng. Kevin Williams wedi bod mewn cyswllt hefo Dewi Roberts o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, a nodwyd eu bod methu dod o hyd i'r cytundeb blaenorol nag y cofnodion o'r cyfarfod o gynhaliwyd. Cyng. Kevin Williams i holi am ddiweddariad.

Prosiect i Bartneriaeth Ogwen – Y cadeirydd i holi Meleri Davies yn y cyfarfod nesaf o Fwrdd Rheoli Partneriaeth Ogwen ar y 20fed o Fai 2021.

Twll yn y ffordd ger y Wern – y twll wedi gael ei lenwi, ond mae dŵr dal i barhau i lifo i lawr, a mae'r ffordd yn beryglus iawn yn ystod cyfnodau o eira a rhew. Cyng. Megan

Tomos i danfon cynnwys llythyr at y Clerc, a'r Clerc i ddanfon ymlaen at yr adran priffyrdd a'r Cyng. Dafydd Meurig.

Cysylltiad Fibreoptig – Cyng. Megan Tomos wedi derbyn ymateb gan Hywel Williams AS. Hywel Williams wedi cynnig edrych i fewn i'r mater ar sail personol ond nid ar sail y gymuned gyfan. Nodwyd y Cyng. Megan Tomos efallai y byddai modd hêl enwau at ei gilydd i bwysu am cynllun cymunedol. Hefyd, nodwyd y Cyng. Lowri Evans bod modd mynd ar wefan 'Openreach' i gwblhau ffurflen byr i ddatgan diddordeb, y cynghorwyr i gylchredeg y wybodaeth hon yn eu hardaloedd lleol.

Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Cae Gwigin – Y Clerc wedi danfon pryderon at yr Heddlu, a gofyn iddynt gadw llygaid ar y safle. Nodwyd hefyd fod criw o bobl wedi bod yn gwersylla mewn pebyll ar y safle. Y Cynghorwyr lleol i ofyn i bobl leol adrodd i'r heddlu os bydd hyn yn digwydd eto.

5. Penodi Archwilydd Mewnol

Y Cyngor yn hapus i benodi Cyngor Gwynedd ar gyfer y gwaith archwilio. Y Clerc i wneud y trefniadau.

6. Taliadau

Awdurdodwyd y taliadau canlynol:

Julian Johnson – Torri gwair Talybont	£150.00
Partneriaeth Ogwen – Gwasanaeth Clercio	£2632.65

7. Cae chwarae Tal y Bont

Gardd Cymunedol – Cadarnhwyd y bydd Huw Davies, Rheolwr Dyffryn Gwyrdd yn cysylltu a ni pryd fydd y gwaith yn barod i gychwyn.

Datblygu Cae Pel-droed – Y Clerc i drefnu cyfarfod rhwng Alex Tedford o Broc Design, Cyngor. Evan Jones ac Alun Thomas a'r Clerc.

8. Y Mynydd

Cafwyd diweddariad gan y Cyng. Megan Tomos ar faterion ar y mynydd. Cynhaliwyd cyfarfod rhwng y Pwyllgor Mynydd, Panel Comin Llanllechid a'r bugail. Cytunwyd y byddai'r Clerc yn danfon llythyr at y porwyr i atgoffa am reolau'r Mynydd. Derbyniwyd llythyr gan tenant newydd Bronydd Isaf ynglyn a hawliau pori, y Cyng. Wyn Bowen Harris wedi drafftio llythyr, y Clerc i ddanfon yr ymateb ymlaen at y tenant.

9. Gohebiaeth

Cyflwynwyd – Un Llais Cymru Aelodaeth 2021-22 – Penderfynwyd peidio ymaelodi am y tro.

Cyflwynwyd – Cymunedau di-blastig - Trafodwyd y cynnwys a cytunwyd cefnogi'r ymgyrch penderfynwyd y bydd y Cyng. Megan Tomos yn cynrychioli'r Cyngor ar y Grŵp Llywio.

Cyflwynwyd – BHIB – Yswiriant y Cyngor – Nodwyd fod y Cyngor yn hapus i adnewyddu'r yswiriant.

10. Adroddiadau gan gynrychiolwyr

Dim.

11. Penderfyniadau Cynllunio:

C20/0504/21/LL

Tir ar Fferm Corbri, Llanllechid

Codi ty fforddiadwy un llawr, mynedfa, llecynnau parcio, tanc septig ynghyd a thanc cynaeafu dwr

Penderfyniad: ar y gweill.

C21/0008/21/DT

27 Bro Emrys, Talybont

Cais ar gyfer codi estyniad deulawr ochr ynghyd ac estyniadau unllawr to un codiad i flaen a chefn yr eiddo

Penderfyniad: Caniatawyd gydag amodau.

C21/0078/21/CC

Ogwen Bank, Bethesda

Torri a thocio coed sy'n destun gorchymyn gwarchod coed 3/TPO/GCC/17 (ail-gyflwyniad a diweddariad o gais rhif C20/0154/21/CC)

Penderfyniad: Ar y gweill.

C21/0099/21/CC

Ogwen Bank Bethesda

Mesurau i ddiogelu coed a gorchymyn coed arnynt yn ystod gwaith i uwchraddio'r parc carafanau

Penderfyniad: Ar y gweill.

NP3/21/28D

Bronydd Uchaf, Llanllechid

Codi adeilad amaethyddol yn cynnwys storfa slyri tan ddaearol

Penderfyniad: Ar y gweill.

NP3/21/42C

Marlow, Llanllechid

Cladio cerrig i edrychiad blaen yr eiddo.

Penderfyniad: Caniatawyd gydag amodau.

NP3/21/91A

1 Green Cottage, Llanllechid

Dymchwel estyniad unllawr yn y cefn ac adeiladu estyniad deulawr yn ei le ynghyd ac estyniad unllawr ar yr ochr

Penderfyniad: Caniatawyd gydag amodau.

C21/0309/21/CT

Ffermdy Red Lion, Llanllechid

Torri Coed mewn Ardal Cadwraeth

Penderfyniad: Ar y gweill.

Ceisiadau Cynllunio:

C21/0333/21/DT

Cae Mawr, Talybont

Cais ar gyfer ymestyn modurdy ddomestig i greu ystafell gardd

Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad.

(Gadawodd y Cyng. Geraint Hughes y cyfarfod – datgan diddordeb)

C21/0351/21/DT

Tanlôn Cottage, 4 Tan y Lon, Ffordd Aber, Talybont

Cais ar gyfer codi estyniad unllawr uwchlaw estyniad to gwastad cefn presennol ynghyd ac estyniadau ffenestri cromen eisoes wedi eu caniatáu o dan gais cynllunio cyfeirnod

C20/0958/21/DT

Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad.

NP3/21/T76B

Llwyn Penddu Isaf, Llanllechid, LL57 3LL

Estyniad unllawr ar yr ochr

Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad.

C21/0455/21/RA

Tir Gyferbyn Maes Bleddyn, Bethesda

Rhyddhau amod rhif 13 (Cynllun Tai Fforddiadwy) a 23 (Datganid Dull Ymlusgiaid) ynghyd a rhannol rhyddhau amod 17 (Datganiad Dull Adeiladwaith), 22 (Cynllun Atal Llygredd) ac amod 24 (Cynllun Gwelliannau Bioamrywiaeth).

Penderfyniad: Nid yw'r Cyngor Cymuned mewn sefyllfa i wneud unrhyw benderfyniad hyd nes bod dilysrwydd a cyfreithlondeb y caniatâd cynllunio gwreiddiol yn cael ei sefydlu. Nodwyd hefyd does dim gwybodaeth ar y we yn gysylltiedig âg amod 13 (tai fforddiadwy).

12. Materion Brys

Cyfrifon Banc – Y Clerc dal yn gael trafferthion gyda'r banc – angen creu mandad newydd. Penderfynwyd y bydd y Cyngor. Jên Morris a Margaret Fernley yn cael eu cynnwys ar y mandad newydd, y Clerc i gysylltu â nhw i gael y manylion perthnasol.

Datblygiad Cae Rhosydd – Yn dilyn cyfarfod brys a gafwyd ei gynnal ar y 28ain o Ebrill 2021, cytunwyd fel Cyngor Cymuned ein bod yn grediniol bod y broses sydd wedi ei ddilyn wrth ddelio a'r cais cynllunio hwn wedi ei wneud yn anghywir ac nad yw'n unol a'r broses ddemocrataidd hynny sydd yn ddisgwyliedig o'r broses gynllunio.

Cyflwynwyd llythyr ddraft gan y Cyngor. Dafydd K Jones yn amlygu pryderon y Cyngor a phenderfynwyd danfon y llythyr yma at Prif Weithredwr, Cyngor Gwynedd. Derbyniwyd ymateb i'r llythyr gan Iwan Evans, Pennaeth yr Adran Gyfreithriol hwyr p'nawn 13 o Fai 2021. Penderfynwyd ysgrifennu llythyr ymateb i datgan siom gyda'r ymateb ac yn dal i wrthwynebu'r cais datblygiad yn gryf iawn, ac i ofyn os oes cyfle i Adra, Cyngor Gwynedd a Chyngor Cymuned Llanllechid gyfarfod i gyd-drafod i ddiwygio'r caniatâd er mwyn cyflawni hyn. Oni bo modd gwneud hynny, bydd y Cyngor yn ceisio barn gyfreithiol ynglŷn â'r modd y gwnaed y penderfyniad cynllunio hwn ac arweiniad am sut y gellir sicrhau datblygiad priodol ac addas ar gyfer y safle hwn.